# Digwyddiadau DiSTEM 2023

DiSTEM AiSTEM

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Mae ein holl ddigwyddiadau yn rhedeg o 12-1pm gydag opsiwn hybrid os cânt eu cynnal wyneb yn wyneb

Prif Adeilad/0.13

## 6 Mawrth

### Llywio'r llwybr o Riant i Athro

*Dr Jennifer Edwards a Dr Kathryn Jones*

Mae rhoddwyr gofal sylfaenol sy'n gweithio yn y byd academaidd yn wynebu'r her anfesuradwy o orfod rhannu eu hamser rhwng ymchwil, addysgu, rhianta a hunanofal, gan arwain yn aml at aberthu'r olaf yn y status quo presennol. Bydd Jenny a Kathryn yn ein tywys drwy eu teithiau personol o fod yn rhiant, gan roi cipolwg ar sut i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder a wynebir gan rieni yn y byd academaidd heddiw

Ar-lein ar Zoom

## 29 Mawrth

### Bod yn wyliwr positif

*Wendy Sadler*

Ydych chi erioed wedi meddwl sut y gallech chi helpu i liniaru sefyllfa rydych chi'n ei harsylwi, hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo'n gyffyrddus yn ei hwynebu ar hyn o bryd? Mae bod yn wyliwr positif yn golygu cymryd camau a allai helpu rhywun sydd wedi dioddef aflonyddu neu fwlio, ond mewn ffordd sy'n eich cadw'n ddiogel ac o fewn eich parth cysur. Yn y sesiwn flasu fer hon, bydd Wendy yn rhoi cyflwyniad i chi i rai o'r technegau y gallech eu defnyddio, a chyfle i rwydweithio ag eraill i rannu profiadau mewn man diogel.

Ar-lein ar Zoom

## 26 Ebrill

### Rydyn ni ynddo gyda'n gilydd: sicrhau tegwch trwy gyfarfodydd cynhwysol

*Dr Ceri Morris*

Yn y sesiwn hon, ar ôl cyflwyniad byr i egwyddorion a diffiniadau cynhwysiant, bydd Ceri yn archwilio goblygiadau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer cyfarfodydd, o ran cynnwys, agendâu a threfniadaeth, er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

## 31 Mai

### Amrywiaethu Wicipedia: dod yn olygydd a chynrychioli pobl sydd wedi'u lleiafoli

## 28 Mehefin

### Bod yn gynghreiriad gwell i'ch cyfoedion niwroamrywiol

Blog amrywiaeth mewn STEM

SCAN ME

@diversity_cu

I gofrestru ar gyfer digwyddiad, ymunwch â'n rhestr bostio drwy ebostio:

DISTEM@caerdydd.ac.uk